## Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Aberdaron 2022-23

Mae cymuned Aberdaron wedi ei leoli ym mhen draw Penrhyn Llŷn gan derfynu gyda chymunedau Botwnnog a Thudweiliog i'r dwyrain. Mae'r gymuned yn cynnwys hen blwyfi eglwysig Aberdaron, Rhiw, Llanfaelrhys a Bodferin gyda Ynys Enlli i'r gorllewin. Arferai yr ardal fod yng nghwmwd Cymydmaen ac yn un o dri cwmwd a ffurfiai gantref Llŷn.

Mae'r Cyngor wedi ei ffurfio o dair ward, sef Aberdaron, Y Rhiw a Rhoshirwaun. O fewn ardal y Cyngor mae pentref Aberdaron, pentref gwledig Y Rhiw ac ardaloedd Rhoshirwaun a Rhydlios.

**Aelodaeth y Cyngor:**

**Cynghorwyr Ward Aberdaron:**
Wenda Williams
Dafydd Myrddin
Jaci Jones
Tim Rosa
Mari Jones Evans

**Cynghorwyr Ward Y Rhiw:**
Y Cynghorwyr:
Nesta Roberts
Emlyn Jones
Dafydd Williams

**Cynghorwyr Ward Rhoshirwaun:**
Robert J Williams
Gwenllian Hughes Jones
Wil Evans

Cadeirydd 2022-23: Wenda Williams
Is gadeirydd 2022-23: Wil Evans

Mae Y Cynghorydd Gareth Williams yn cynrhychioli y Cyngor Cymuned ar Gyngor Gwynedd ac yn Gynghorydd ardal Pendraw Llŷn, mae hefyd yn cynrhychioli cymuned Botwnnog ar Gyngor Gwynedd.

**Staff:**

Mae Iwan Hughes yn cael ei gyflogi fel clerc y Cyngor, ei gyfeiriad ebost ydi cyngorcymunedaberdaron@gmail.com

Cyfarfodydd:

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar yr ail nos Lun o bob mis ac eithrio mis Awst gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn neuaddau Rhoshirwaun, Y Rhiw a Chanolfan Deunant yn eu tro.

Cymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor felly, cynhelir y cyfarfodydd yn y Gymraeg. Cynhelir cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai pryd yr etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd am y flwyddyn ynghŷd ac adolygu Dogfennau a Pholisiau'r Cyngor sydd yn cael eu arddangos ar wefan y Cyngor:

Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Polisi Pryderon a Chwynion, Rheolau Mynwentydd a'r Asesiad Risg.

**Eiddo y Cyngor:**

Cae chwarae pentref Aberdaron

Eglwys Newydd Aberdaron a'r fynwent sydd yn ei hamgylchynu.

**Atebolrwydd:**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu côd ymddygiad aelodau a chedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a bydd y rhain yn cael ei nodi yn y cofnodion.

Mae cyfrifon y Cyngor yn cael ei harchwilio gan archwilydd mewnol ac allanol yn flynyddol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei gynnal gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r Archwiliad Allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal y mae'n ei gynrychioli ar ran y gymuned gyfan.

Dyma rai o gyfrifoldebau Cyngor Cymuned Aberdaron:

- gosod Praesept sef y dreth sydd yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor bob blwyddyn,
- cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd,
- cynnal a chadw tiroedd ac eiddo'r Cyngor (gweler uchod)

- cyfrannu at geisiadau am nawdd oddi wrth elusennau/grwpiau/mudiadau ar yr amod y derbynnir mantolen ariannol gyfredol, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor,
- hysbysu adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd am gyflwr ffyrdd, llwybrau, pontydd, goleuadau stryd, meysydd parcio a hawliau tramwy
- Barbio rhai o lwybrau troed y gymuned

**Cyllid**

Prif ffynhonnell incwm y Cyngor yw'r praesept a osodir yn flynyddol a'i gyflwyno i Gyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a dyma'r unig ffynhonnell o incwm ardreth sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref. Paratoir cyllideb ddrafft ar sail asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor drwy ystyried y costau tebygol yn yr hydref. Mae'r Cyngor yn cyfrannu £2,000 y flwyddyn at gynnal a chadw toiledau cyhoeddus y gymuned, mae Cyswllt Twristiaeth Aberdaron yn cyfrannu hanner y gôst yma.
Hawlia'r Cyngor ad-daliad treth ar werth a dalwyd yn ystod y flwyddyn.
Mae'r Cyngopr yn gyfrifol am godi ffioedd ar gyfer agor beddau a gosod cerrig beddau yn y fynwent, mae'r arian a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio tuag at gynnal a chadw y fynwent.

**Mantolen ariannol Cyngor Cymuned Aberdaron 2022-2023**

**Yn y banc 31/3/2022: £33,959.37**

| | Taliadau 2022-23 | Derbyniadau 2022-23 |
|---|---|---|
| Gweinyddu cyffredinol | £8,556.43 | £15,045.66 |
| Cae Chwarae | £839.60 | |
| Llwybrau | £850 | £681.50 |
| Eglwys | £6,759.22 | £8,172.50 |
| Amrywiol | £2,200 | £1952.52 |
| Cyfanswm | £19,205.25 | £25,852.19 |
| | | |
| **Yn y Banc 31/3/2023:** | | |
| Cyfri cyfredol | £40,606.26 | |
| | | |
| Wrth gefn | £0.05 | |
| | | |
| **Cyfanswm** | **£40,606.31** | |

**Gwaith y Cyngor yn ystod y flwyddyn:**

**Cae chwarae:** Yn ystod y flwyddyn 2021-22 gwnaed gwellianau sylweddol i gae chwarae y pentref yn dilyn cyfnod sylweddol o fod ar gau oherwydd perygl o dir

lithriad. Mae’r llethr bellach wedi ei ddiogelu ac mae tua £50,000 wedi ei wario ar y cae. Rhoddodd y Cyngor Cymuned gyfraniad ariannol tuag at y gwelliannau ond Pwyllgor annibynnol wedi ei ffurfio gan rieni plant yr ardal fu’n bennaf gyfrifol am ffynonnellu grantiau ar gyfer yr offer newydd, ffens etc. Mae’r Cyngor yn gyfrifol am ofalu am y cae o ddydd i ddydd ac am gynnal system CCTV, torri gwellt ac archwiliadau iechyd a diogelwch.

**Eglwys Newydd:** Mae’n debyg mai yr her fwyaf sydd yn wynebu y Cyngor ar hyn o bryd ydi diogelu adeilad yr eglwys sydd bellach ar gau i’r cyhoedd. Mae’r eglwys ym meddiant y Cyngor Cymuned trwy lês 999 o flynyddoedd gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae’r adeilad rhestredig gradd II yn beryglus ac mae gwir angen ail doi ynghyd a gwelliannau eraill i strwythr yr adeildad. Mae’r eglwys wedi ei dad-gysegru ac yn cael ei defnyddio yn arferol ar gyfer gwasanaethau angladdol.
Yn ystod y flwyddyn mae astudiaeth dichonoldeb wedi ei wneud gan Gwmni Celyn mewn partneriaeth gyda Penseiri Donald Insall. Nid yw y defnydd presennol sef cynnal gwasanaethau angladdol/capel gorffwys yn ddigonol ar gyfer denu grantiau, felly rhaid edrych am ddefnydd arall yn ogystal. Mae’r mwyafrif o’r gwaith sydd ynghlwm â’r astudiaeth wedi ei gwblhau ond nid oes datrysiad pendant wedi ei wneud hyd yma ynghylch defnydd posibl o’r adeilad er mwyn denu grantiau er mwyn adfer yr adeilad.
Mae cwmni penseiri cadwriaethol Donald Insall yn y broses o dendro ar gyfer gwaith trwsio brys er mwyn diogelu yr adeilad yn y tymor byr.
Derbyniwyd grant gan gronfa SDF AHNE Llŷn ar gyfer yr astudiaethau, mae cyllid cyfatebol i’w dderbyn gan yr AHF.

**Mynwent yr Eglwys Newydd:** Mae y Cyngor yn gyfrifol am dorri gwellt y fynwent trwy broses o wahodd tendrau bob 2 flynedd. Yn 2022 bu’r Cyngor yn gyfrifol am hwyluso mynediad i’r fynwent trwy wneud gwelliannau i’r arwyneb wrth y giat isaf, sef y brif fynedfa i’r fynwent ar hyn o bryd.

**Hysbysfyrddau:** Derbyniwyd grant gan Gronfa AHNE Llŷn ar gyfer hysbysfyrddau newydd i bentrefi Y Rhiw ac Aberdaron, mae yr hysbysfyrddau wedi eu gosod.

**Palmant newydd:** Mae y Cyngor yn flaenllaw mewn ymgyrch i geisio cael palmant ar hyd ochr y ffordd o Ysgol Crud y Werin hyd at stad Bro Hywyn ar gwr pentref Aberdaron. Mae trafodaethau yn cymeryd lle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.

**Cyfraniadau ariannol:** Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd cyfraniadau ariannol tuag at dorri gwellt mynwentydd y tair eglwys sydd o fewn y gymuned sef Ant Hywyn, Llanfaelrhys a Sant Aelrhiw, ynghyd a mynwentydd capeli Nebo a Bethesda.
Rhoddwyd cyfraniadau yn ogystal i neuaddau y Rhiw, Rhoshirwaun a Chanolfan Deunant, Aberdaron.
Mae cyfraniadau wedi eu rhoi i Gylch Meithrin Aberdaron ac i Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2022 ac O Ddrws i Ddrws

Cwblhawyd yr adroddiad gan Iwan Hughes, Mehefin 2023